



PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 21 MEDI 2021 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry – Cadeirydd
Y Cynghorydd C. Andrews – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs E. M. Aldworth, P.J. J. Bevan, A. Collis, A. Farina-Childs, B. Miles a J. E. Roberts.

Aelod o'r Cabinet: Cynghorydd R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), J. Southcombe, (Rheolwr Cyllid), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac ADY), L. Thomas (Prif Swyddog – Ysgolion yr 21ain Ganrif), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr G. James (Cynrychiolydd y Rhiant-Lywodraethwyr) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

Hefyd yn Bresennol:

R. Owen (Pennaeth, Ysgol Idris Davies 3-18 oed) ac N. Davies (Pennaeth, Ysgol Gynradd Nant-y-Parc ac Ysgol Gynradd Tynwydd).

TREFNIADAU RECORDIO

Gwnaeth y Cadeirydd atgoffa'r rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai ar gael i'w wyllo trwy wefan y Cyngor, ac eithrio pan fyddai eitemau cyfrinachol neu eithriedig yn cael eu trafod. [Cliciwch yma i'w weld.](#)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W. David, Ms J. Gale, D. T. Hardacre, D. Havard, M. P. James, Mrs B. A. Jones, Mrs G. D. Oliver a J Simmonds. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb hefyd gan Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Addysg Archesgobaeth Gatholig Caerdydd), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd y Rhiant-Lywodraethwyr) a Mrs P. Ireland (NEU).

2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION – 29 MEHEFIN 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ddydd Mawrth 29 Medi 2021 (cofnodion rhif 1 i 10) fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWDYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

Cyflwynodd y Rheolwr Craffu yr adroddiad, a oedd yn nodi manylion am Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2021 a mis Mawrth 2022, ac a oedd yn cynnwys yr holl adroddiadau a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y Blaenraglen Waith, ochr yn ochr â Blaenraglen Waith y Cabinet, cyn iddi gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar y newidiadau a gynigiwyd, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu cymeradwyo. Drwy bleidlais ar Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

PENDERFYNWYD bod Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

6. ADRODDIADAU'R CABINET

Ni chafodd yr un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda eu galw gerbron i'w trafod yn y cyfarfod.

ADRODDIADAU SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

7. DYCHWELYD I'R YSGOL MIS MEDI 2021 – CYFLWYNIAD

Croesawodd y Cadeirydd R. Owen (Pennaeth, Ysgol Idris Davies 3-18 oed) ac N. Davies (Pennaeth, Ysgol Gynradd Nant-y-Parc ac Ysgol Gynradd Tynewydd) i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a chafodd N. Davies ei llongyfarch am gael ei gwobrwyo ag MBE yn gynharach eleni am ei gwasanaethau i Addysg.

Rhoddodd y Prif Swyddog Addysg gyflwyniad ar ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2021. Amlinellwyd y ffordd y gwnaeth ysgolion ymateb i bandemig COVID-19, a roddodd yr heriau cyson y wynebodd ysgolion dros y cyfnod hwnnw mewn cyd-destun. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Addysg agweddau mwyaf heriol a llwyddiannau 2020-2021 ac esboniodd beth sy'n mynd i fod yn wahanol o fis Medi 2021 ymlaen.

Gwnaeth Pennaeth Ysgol Idris Davies 3-18 a Phennaeth Ysgol Gynradd Nant-y-Parc ac Ysgol Gynradd Tynewydd annerch y Pwyllgor Craffu a rhoesant eu barn ar yr agweddau mwyaf heriol i ysgolion yn ystod pandemig COVID-19. Pwysleisiodd Pennaeth Ysgol Idris Davies 3–18 nifer o feysydd heriol a dywedodd wrth y Pwyllgor Craffu mai un o'r heriau mawr o safbwynt ysgolion uwchradd oedd yr effaith ar ddysgwyr cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 ac mewn darparu rhywfaint o eglurder i ddisgyblion a rhieni am yr hyn yr oedd ei angen. Pwysleisiodd Pennaeth Ysgol Gynradd Nant-y-Parc ac Ysgol Gynradd Tynewydd hefyd nifer o feysydd heriol, gan gynnwys rheoli gorbyrder aelodau'r gymuned ysgol ond hefyd cymuned ehangach yr ysgol.

Soniodd Aelod am y cynnydd diweddar yn nifer yr achosion o'r coronafeirws a chwestiynodd a oedd unrhyw gynlluniau i ailgyflwyno rhai o'r cyfyngiadau. Mewn ymateb, rhoddodd y Prif Swyddog Addysg esboniad ar y fframwaith gwneud penderfyniadau a'r lefel asesu risg. Rhoddodd Pennaeth Ysgol Idris Davies 3-18 hefyd drosolwg i'r Pwyllgor Craffu o'r mesurau rheoli sydd ar waith yn Ysgol Idris Davies 3-18.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod mewn perthynas â'r cyllid dysgu carlam, rhoddodd y Rheolwr Cyllid wybod i'r Pwyllgor Craffu fod pob ysgol wedi cael hysbysiad o'u dyraniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd ohoni. Cyfeiriwyd at Linell Gymorth y Penaethiaid ac mewn ymateb i ymholiad Aelod, pwysleisiodd Pennaeth Ysgol Idris Davies 3-18 a Phennaeth Ysgol Gynradd Nant-y-Parc ac Ysgol Gynradd Tynewydd y cymorth ac arweiniad rhagorol y derbynion nhw gan y Prif Swyddog Addysg a swyddogion eraill yn yr awdurdod yn ystod pandemig COVID-19.

8. BAND B Y RHAGLEN YSGOLION A CHOLEGAU AR GYFER YR 21AIN GANRIF – DIWEDDARIAD AR GAM 2

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Gam 2 Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif ac yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r Cabinet fwrw ymlaen i ymgynghori mewn perthynas â phrosiectau cam 2 a oedd yn cynnwys uno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon, codi ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin a sefydlu Canolfan newydd ar gyfer Dysgwyr Agored i Niwed (Uned Cyfeirio Disgyblion).

Derbyniodd yr Aelodau drosolwg o ddatblygiad cynigion Cam 2 Band B gan Reolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif a oedd yn cynnwys cynnig i uno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon, codi ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin a chreu Canolfan i Ddysgwyr Agored i Niwed ym Mhontllanfraith. Mae'r Achosion Busnes Amlinellol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru wedi cael Cymeradwyaeth y Gweinidogion ac esboniwyd bod cymeradwyaeth bellach yn cael ei cheisio ar yr argymhelliad i fwrw ati i ymgynghori ar y 3 chynllun ar yr un pryd, yn ogystal â'r cyllid a amlinellir yn yr adroddiad. Esboniwyd hefyd mai dim ond 1 o'r 3 chynnig a oedd yn destun gofynion i ymgynghori dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru, ond er mwyn galluogi i benderfyniadau agored a thryloyw gael eu gwneud, bydd yr un broses ymgynghori'n cael ei chynnal ar gyfer y 3 chynnig, gyda'r bwriad o ymgymryd â chyfnod ymgynghori tua diwedd mis Hydref, os bydd y Cabinet yn cymeradwyo hynny.

Ceisiodd aelodau gael gwybodaeth am gynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif i'r dyfodol mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer Ysgolion Cyfrwng Cymraeg. Gwnaeth y swyddogion atgoffa'r Aelodau fod Cam 1 cynigion Band B yn cynnwys Ysgol Gyfun Cwm Gwyddon, yr oedd Craffu a'r Cabinet wedi cytuno arnynt yn flaenorol ac a oedd bellach yn cael eu datblygu drwy'r broses cais cynllunio. Byddai achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru o gael cymeradwyaeth cynllunio, gyda dyddiad cwblhau disgwylidig a safle ar gael erbyn mis Medi 2023. Pwysleisiodd y Swyddog fod Rhaglen Band B yn mynd rhagddi mewn tameidiau

ac y byddai camau i'r dyfodol yn ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg o fewn amlen cyllid gytûn.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran a fyddai lleoli disgyblion yn y Ganolfan ar gyfer Dysgwyr Agored i Niwed ym Mhontllanfraith yn ddarpariaeth amser llawn ac a fyddai staff ychwanegol yn cael eu cyflogi. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r safle'n awyddus i letya rhwng 80 a 120 o ddisgyblion a byddai angen cyflogi staff ychwanegol gan fod hyn yn ehangu'r ddarpariaeth gyfredol i ddysgwyr sydd angen y math hwn o ddarpariaeth yn yr Awdurdod. Rhagwelir y bydd y lleoedd yn seiliedig ar anghenion unigol disgyblion. Disgwylir y byddai mwyafrif y disgyblion yn mynychu'n llawn amser, ond y nod fydd darparu cymorth i alluogi disgyblion i ailintegreiddio i ysgolion y brif ffrwd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau hefyd y dylid ystyried yr uchelgais i'r cyfleusterau ar safle CVL fel 'Canolfan Rhagoriaeth' a byddant ar gael at ddefnydd y gymuned y tu allan i oriau ysgol gan fod hyn yn rhag-amod sydd wedi'i ymwreiddio ym mhob cynllun Band B.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu cymeradwyo. Drwy bleidlais ar Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad. Cyn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet, penderfynodd y Pwyllgor Craffu Addysg ar y canlynol:

- (i) Cymeradwyo'r argymhelliad i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnig i uno Ysgol Iau Llancaeac ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.
- (ii) Cymeradwyo'r argymhelliad i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad trwy'r broses a amlinellir yn 5.4.3 a 5.5.4 mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Plasyfelin a'r Ganolfan i Ddysgwyr Agored i Niwed nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion statudol Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.
- (iii) Cymeradwyo'r argymhelliad i glustnodi £4.716m o Gronfa Wrth Gefn Llundio Lleoedd yr Awdurdod mewn perthynas â chyfraniad ariannol yr Awdurdod at Gam 2 o Fand B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Garrif.

9. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu am ddatblygiad yr Awdurdod Lleol (ALI) mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018). Cafodd yr aelodau wybod mai diben y Ddeddf yw creu'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol i blant a phobl ifanc. Mae'n canolbwyntio ar nodi anghenion yn gynnar rhoi dulliau cymorth a monitro effeithiol ar waith ac addasu ymyriadau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden i'r Arweinydd Cynhwysiant ac ADY, ei thîm a'r holl bartneriaid am y swm enfawr o waith sydd wedi'i wneud ar hyn hyd yma a'r cyfan er budd llawer o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed.

Ymatebodd yr Arweinydd Cynhwysiant ac ADY i ymholiad mewn perthynas â chyllid i'r ganolfan ddysgu ychwanegol yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a rhoddodd wybod i'r Aelod fod modd cynnal trafodaethau pellach gyda'r Corff Llywodraethu a'r athro o ran y ffordd y mae'r ddarpariaeth honno'n datblygu ym mhob rhan o'r ysgol.

Gofynnwyd am eglurhad ar nifer o faterion, gan gynnwys cyflwyno proffiliau un tudalen i blant ag anghenion dysgu ychwanegol a chadarnhawyd bod yr holl staff yn glir ynghylch y disgwyliadau am broffiliau un tudalen a'u bod ar waith ar gyfer plant. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, darparodd yr Arweinydd Cynhwysiant ac ADY ragor o wybodaeth mewn perthynas

â datblygu a chyflwyno'r pecyn hyfforddiant blynyddoedd cynnar i bob gwarchodwr plant. Pwysleisiodd y Swyddog hefyd ei bod hi'n bwysig fod yr holl oedolion sy'n cefnogi plant yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â Deddf ADY.

Nododd yr aelodau gynnwys yr adroddiad a chefnogodd ymarfer yr Awdurdod Lleol wrth ymgorffori Deddf ADY.

10. ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN 2020/21 ASESIAD O BERFFORMIAD Y GYFARWYDDIAETH

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad er mwyn rhoi Aseiad o Berfformiad Cyfarwyddiaeth y Gwasanaeth Addysg diwedd y flwyddyn, sy'n rhan o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor, i'r Pwyllgor Craffu. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod yr Aseiad o Berfformiad Cyfarwyddiaeth yn rhan o weithgareddau hunanasesu cyffredinol y Cyngor ac mae'n darparu gwybodaeth a dadansoddiad ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 2020/21. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol grynodedd i'r Aelodau o ddatblygiad a blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth.

Adolygodd yr aelodau Aseiad o Berfformiad Cyfarwyddiaeth y Gwasanaeth Addysg a gwnaethant drafod, herio a chraffu ar y wybodaeth ynddo.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.51 pm.

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 2 Tachwedd 2021, cawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

CADEIRYDD